FRÂN WEN

# PENNAETH YMGYSYLLTU

| | |
|---|---|
| CYFLOG: | £35,000 - £40,000 |
| DYDDIAD CAU: | 03 TACHWEDD 2023 |
| CYTUNDEB: | PARHAOL |



## PECYN SWYDD

# AILDDIFFINIO'R DYFODOL. UN SIOE AR Y TRO.



# PENNAETH YMGYSYLLTU

Dyma gyfle newydd sbon i chwarae rhan allweddol yn y modd yr ydym ni'n gweithredu, comisiynu, datblygu a chynhyrchu sioeau.

Mae'r amcan yn glir - i gydweithio hefo ni i dorri tir newydd yn y ffordd y mae theatr yn cael ei greu gan osod theatr yn y gymuned a chymuned yn y theatr.

Yn Frân Wen, rydym yn cydweithio gyda chymunedau bob dydd - rydym yn gwrando ar yr hyn sydd gan bob i'w ddweud drwy gyflwyno gweithgaredd greadigol o fewn cyd-destun addysgol, yn ein cymunedau a thrwy ein Cwmni Ifanc.



O gynhyrchiad safle benodol yng nghanol Maes B i’r sioe gerdd Gymraeg fwyaf epig, mae Frân Wen yn cynhyrchu gwaith amlddisgyblaethol ac amrywiol sydd wedi ei ysbrydoli gan y bobl rydym yn ymgysylltu â nhw.  Mae Nyth, ein cartref newydd yng nghalon dinas Bangor, a’n cerbyd teithiol Nyth symudol, yn cynnig yr adnoddau gorau un i ymgysylltu ac ysbyrdoli ystod eang o bobl yn lleol, yn genedlaethol a thu hwnt.

Bydd y Pennaeth Ymgysylltu yn cydweithio’n agos gyda’r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cynhyrchydd er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflwyno gydag uchelgais a gonestrwydd tra hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer popeth arall a wnawn.

Yn allweddol i'r swydd mae cysylltu cymunedau Gogledd Orllewin Cymru gyda’r byd, datblygu cyfleon gyrfa i bobl ifanc a meithrin cymunedau hapus a chydlynnol.









# 31,702

Rydym wedi ymgysylltu â 31,702 o bobl drwy ein rhaglen ymgysylltu yn y 3 mlynedd diwethaf.



# 38,021

o bobl wedi gweld ein gwaith yn y 3 mlynedd diwethaf.



# LLYWODRAETHIANT

Mae Frân Wen yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig.

Mae'r cwmni yn cael ei arwain gan fwrdd o ymddiriedolwyr gwirfoddol sy'n cynnwys 11 o unigolion proffesiynol gyda phrofiadau eang.

Mae ein Panel Ymgynghorol Ifanc yn sicrhau llais a dylanwad pobl ifanc ar bob agwedd o waith y cwmni gan chwarae rhan allweddol mewn trafodaethau artistig a strategol.

Mae Frân Wen yn gwmni bychan o staff ymroddedig sy'n cydweithio'n agos i gyflawni amcanion y cwmni.

Mae'r staff presennol yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Artistig: | Gethin Evans |
| Cyfarwyddwr Gweithredol: | Nia Jones |
| Rheolwr Marchnata: | Carl Russell Owen |
| Rheolwr Cynhyrchu: | Lewis Williams |
| Swyddog Gweinyddol: | Olwen Williams |
| Cyfarwyddwr Cymunedol: | Elis Pari |

Cyflogir oddeutu 180 o artistiaid yn flynyddol i wireddu'r rhaglen artistig.



# CHI

Rydym yn chwilio am Gyfarwyddwr Ymgysylltu gydag angerdd ac uchelgais. Rhywun eithriadol all gynnig gweledigaeth glir a chymhellol i strategaeth ymgysylltu Frân Wen. Rhywun sydd â'r gallu i gyfuno dawn artistig a meddwl strategol craff.

**OES GENNYCH CHI...**

- Edmygedd tuag at weledigaeth a gwaith Frân Wen ac angerdd i chwarae rhan allweddol yn siapio a sicrhau llwyddiant y cwmni.
- Dychymyg, uchelgais ac angerdd i fod yn aelod allweddol o'r cwmni mewn cyfnod cyffous yn ein hanes.
- Profiad o arwain a gweithredu cynlluniau ymgysylltu llwyddiannus o ansawdd uchel ar raddfa amrywiol ac i amrywiaeth o bobl.
- Profiad o sefydlu, meithrin a rheoli timau creadigol.
- Sgiliau cyfathrebu clir ac argyhoeddedig ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn y Gymraeg a'r Saesneg*.
- Y gallu i adnabod a meithrin lleisiau newydd, talent a dychymyg.
- Ymrwymiad gwirioneddol i gynnal ac ehangu amrywiaeth diwylliannol a mynediad ar draws holl waith y cwmni.
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog a'r gallu i rymuso, ysbrydoli a chymell eraill.
- Y gallu i reoli pobl, dirprwyo a datrys gwrthdaro.
- Sgiliau eirioli ardderchog.
- Y gallu i gydweithio ag eraill, i ddatblygu, cynnal a chryfhau partneriaethau creadigol a strategol.

**Rydym yn croesawu ceisiadau gan siaradwyr newydd Cymraeg a gallwn darparu hyfforddiant i'ch cefnogi i ymgymryd â gofynion y swydd.*

- Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r sector gelfyddydol yng Nghymru a thu hwnt.
- Diddordeb gwirioneddol ac yn ymddiddori'n hael yng ngwaith ymarferwyr eraill yng Nghymru ac yn rhyngwladol.
- Diddordeb yng nghyd-destun cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y mae Frân Wen yn gweithio ynddi.
- Ymrwymiad a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd diwylliant a hunaniaeth Cymru i bob agwedd o waith Frân Wen.
- Cysylltiadau eang o fewn y sector theatr a chelfyddydol yng Nghymru a thu hwnt.
- Agwedd gadarnhaol gyda lefel uchel o gymhelliant personol a'r gallu i weithio'n annibynnol ac mewn tîm.



**DISGWYLIWN I'R CANLYNOL FOD YN BWYSIG I CHI:**

- Theatr Iaith Gymraeg sy'n flaengar a pherthnasol ac sy'n gwthio ffiniau a disgwyliadau'r gynulleidfa a chyfranogwyr.
- Meithrin talent ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid.
- Ehangu mynediad i'r celfyddydau drwy annog mwy i gymryd rhan.
- Pŵer trawsnewidiol y celfyddydau.
- Pobl ifanc.
- Cynhwysiant a chydraddoldeb.
- Cynaliadwyedd amgylcheddol.
- Hunaniaeth y Gymru gyfoes.



# SWYDD DDISGRIFIAD

Bod y Pennaeth Ymgysylltu yn gyfrifol am ddatblygu'r strategaeth ymgysylltu a goruchwylio rhaglennu, cynllunio, trefniadaeth a gweithrediad ein rhaglen ymgysylltu yn unol ag amcanion Cynllun Busnes Frân Wen.

Fel aelod o uwch dîm rheoli'r cwmni, bydd deilydd y swydd yn cydweithio gydag eraill i siapio cyfeiriad artistig a strategol y cwmni.





## CYNLLUNIO CREADIGOL

- Bod yn gyfrifol am greu rhaglen o waith creadigol ysbrydoledig sy'n ymwneud â phobl ifanc ac oedolion o'r gymuned a'r sector gelfyddydol.
- Cydweithio gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol i ddatblygu a chyflwyno rhaglen artistig cydlynnol ar gyfer y cwmni.
- Arwain ar ddatblygiad a chyfeiriad Cwmni Ifanc Frân Wen, rhaglen gymunedol Nythu a'n rhaglen dysgu creadigol mewn ysgolion.
- Sicrhau bod Nyth yn cael ei berchnogi fel hwb gelfyddydol byrlymus gan ystod eang o bobl, cymunedau ac artistiaid.
- Gweithredu fel arweinydd tîm ymgysylltu Frân Wen gan gydweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cymunedol a'r Cyfarwyddwr Cwmni Ifanc i gynllunio a gweithredu rhaglen gyffrous o weithgaredd.
- Cyd-weithio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol i gynllunio a gweithredu rhaglen hyfforddiant ac uwch-sgilio pobl ifanc yn y diwydiannau creadigol.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Artistig i gynllunio a gweithredu digwyddiadau a gweithdai i ymgysylltu gyda gwneuthurwyr theatr sy'n dod i'r amlwg a rhai profiadol.

- Goruchwylio'r Panel Ymgynghorol Ifanc er mwyn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu hintegreiddio i bob agwedd o waith, cynllunio strategol a llywodraethiant y cwmni.
- Recriwtio a rheoli ymarferwyr creadigol profiadol a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i gyflawni i'r safon uchaf posib.

## CYNLLUNIO STRATEGOL

- Cydweithio gyda'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol i ddatblygu cyfeiriad ac esblygiad adain ymgysylltu Frân Wen.
- Adeiladu a rheoli partneriaethau gydag asiantaethau allanol a sefydliadau i ehangu cyrhaeddiad rhaglen ymgysylltu Frân Wen.
- Adnabod a datblygu cyfleon i fwyafu potensial masnachol gweithgareddau.
- Cynnal a datblygu partneriaethau sy'n bodoli ynghyd â sefydlu partneriaethau newydd gyda sefydliadau cymunedol lleol, cenedlaethol a rhynwgladol  er mwyn ehangu cyrhaeddiad rhaglen ymgysylltu Frân Wen.





## GWEINYDDU, MONITRO A GWERTHUSO

- Gwreiddio gwerthuso i broses gynllunio pob weithgaredd gan ffocysu ar effaith gymdeithasol ac economaidd ein cynlluniau ymgysylltu.
- Cydweithio gyda'r tîm marchnata i hyrwyddo a dathlu 'straeon' Frân Wen a'i bobl yn fewnol ac allanol.
- Cydweithio gyda'r tîm marchnata i hyrwyddo mynediad ehangaf posib i waith Frân Wen.
- Ymchwilio ac arbrofi drwy gynnal gwaith ymestyn a datblygu er mwyn ymgysylltu gyda chyfranogwyr newydd.
- Cadw bys ar y pyls ynglyn â datblygiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn sicrhau bod strategaethau Frân Wen yn cefnogi blaenoriaethau cyfredol.
- Creu a monitro cyllideb blynyddol y rhaglen ymgysylltu mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr Gweithredol.
- Monitro targedau ymgysylltu a sicrhau eu bod yn cael eu cyrraedd neu gwella.
- Gwerthuso a dadansoddi data i rannu yn fewnol a gyda rhanddeiliaid allweddol.
- Arwain yr adain i ganfod cyfleon i gynnal gweithdai masnachol o fewn gweledigaeth strategol ac artistig Frân Wen.
- Cydweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithedol i adnabod ffynonellau nawdd i gefnogi'r rhaglen ymgysylltu.

## CYFFREDINOL

- Gweithredu a chyfrannu at ddatblygiad polisïau Frân Wen, yn arbennig polisïau sy'n ymwneud â diogelwch, amrywiaeth a hygyrchedd.
- Cynnal dealltwriaeth fanwl o raglen artistig ehangach y cwmni, a gwreiddio ymgysylltu i'r rhaglen ar bob cyfle posib.
- Integreiddio ymarfer gwrth-wahaniaethol ym mhob agwedd o waith y cwmni a hyrwyddo cydraddoldeb wrth weithredu'r rhaglen ac mewn materion yn ymwneud â staff, llawryddion a gwirfoddolwyr.
- Cynrychioli Frân Wen mewn cyfarfodydd a grwpiau allanol sy'n berthnasol i ddysgu creadigol a sgiliau, ymgysylltu a chyfranogi ar lefel lleol a chenedlaethol.
- Sicrhau bod y diwylliant yn Frân Wen yn gynhwysol, gydlynnol, diogel a chefnogol; tra hefyd yn feiddgar ac yn uchelgeisiol yn artistig.
- Ymgymryd â dyletswyddau rhesymol eraill ar gais y Cyfarwyddwr Artistig.



# TELERAU AC AMODAU

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Pennaeth Ymgysylltu |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Artistig |
| **Cyflog:** | £35,000 - £40,000 (yn unol â phrofiad) |
| **Cytundeb:** | Cytundeb llawn amser, parhaol.<br>(Ystyrir ymrwymiad rhan-amser) |
| **Dyddiad cychwyn:** | Mor fuan â phosib. Os yn briodol, gellir dod i gytundeb ynglŷn â sut y gellir rheoli unrhyw waith sydd eisoes wedi ymrwymo iddo. |
| **Lleoliad gwaith:** | Frân Wen, Nyth, Ffordd Garth, Bangor, Gwynedd. LL57 2RW. |
| **Oriau gwaith:** | 38 awr yr wythnos.<br><br>Oherwydd natur y gwaith, bydd angen gweithio oriau anghymdeithasol gyda'r hwyr ac ar benwythnosau. |
| **Gwyliau blynyddol:** | 25 diwrnod y flwyddyn yn cynyddu i 30 diwrnod y flwyddyn wedi 5 mlynedd o wasanaeth. Mae gwyliau statudol yn ychwanegol. |

| | |
|---|---|
| **Cyfnod prawf:** | Bydd y penodiad yn amodol ar gyfnod prawf llwyddiannus o chwe mis. |
| **Rhybudd i adael:** | 1 mis o rybudd yn ystod y cyfnod prawf a thri mis wedi hynny. |
| **Pensiwn:** | Cynllun pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Un o gynlluniau pensiwn gorau yn y wlad gyda chyfraniad cyflogwr o 18.5%. |
| **Buddion eraill:** | Cynllun Llesiant Staff.<br>Gweithio hyblyg.<br>Talebau gwarchod plant.<br>Tocynnau ar gyfer cynyrchiadau a digwyddiadau celfyddydol. |
| **Cofnod Troseddol:** | Mae'r swydd hon wedi ei heithrio o'r Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr (1974). Bydd y cyflogwr yn gwneud ymholiadau trwy'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ynglŷn â gweithio gyda phlant, poblifanc neu bobl sy'n agored i niwed. |
| **Geirda:** | Bydd cynnig o gyflogaeth yn ddibynnol ar dderbyn geirda. |

*Mae'r swydd hon wedi ei gyllido'n rhannol gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.*

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cyngor Gwynedd Council

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

# PROSES YMGEISIO

Os am wneud cais, dylid cyflwyno'r wybodaeth isod:

- Llythyr cais neu fideo byr yn amlinellu addasrwydd a'r rheswm dros eich diddordeb yn y swydd. Rhowch ystyrieth i'r swydd ddisgrifiad a'r manyldeb personol gan nodi sut y gallwch chi wneud cyfraniad gwerthfawr i Frân Wen yn ystod cyfnod allweddol.
- Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal.
- CV gyfredol.

Os hoffech sgwrs anffurfiol a chyfrinachol am y swydd neu angen gwybodaeth mewn fformat gwahanol cysylltwch â Nia Jones ar yr ebost isod neu drwy ffonio 01248 715048.

Anfonwch yr wybodaeth i sylw Nia Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol:

**Frân Wen, Nyth, Ffordd Garth, Bangor, Gwynedd, LL57 2RW**

neu ar e-bost at: **nia@franwen.com**

**DYDDIADAU ALLWEDDOL**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 03 Tachwedd 2023 |
| Dyddiad cyfweliad: | Wythnos yn cychwyn 13 Tachwedd |
| Cychwyn swydd: | Mor fuan â phosib wedi'r penodiad. |


# Y BROSES RECRIWTIO

Mae'r broses recriwtio yn cael ei arwain gan Fwrdd Rheoli Frân Wen mewn ymgynghoriaeth â Phanel Ymgynghorol Ifanc y cwmni.

Nid yw Frân Wen yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth neu wahaniaeth arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Bydd eich cais ac unrhyw wybodaeth bersonol cysylltiedig yn cael ei storio a'i brosesu yn unol â'n Polisi Data a'i ddinistrio ar ôl 6 mis. Os ydych yn cael eich penodi a'ch cyflogi gennym, bydd yr wybodaeth a gyflwynwch yn cael ei gadw'n ddiogel a bydd yn rhan o'ch cofnod cyflogaeth.




FRÂN WEN
FRANWEN.COM